Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg,

**Practis Deintyddol Tŷ Gwyn**

18 Mai 2015

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd amgen a fformatau eraill gael eu llunio, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: AGIC@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-3907-8


© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6
    Profiad y Claf ........ 6
    Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 8
    Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14
    Ansawdd yr Amgylchedd ........ 17
6. Y Camau Nesaf ........ 19
    Atodiad A ........ 20

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Tŷ Gwyn, 14 Heol Sway, Treforys, Abertawe, SA6 6HT, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 18 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a’r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Rhoddir manylion am unrhyw ganfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Tŷ Gwyn yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Treforys, Abertawe. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'n bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae tîm y practis yn cynnwys dau ddeintydd (gan gynnwys perchennog y practis), pedair nyrs ddeintyddol, a derbynnydd

Mae Practis Deintyddol Tŷ Gwyn hefyd yn bractis sy'n cefnogi deintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n dilyn hyfforddiant blwyddyn gyntaf mewn deintyddiaeth (ar ôl graddio o brifysgol). Caiff y deintyddion hyn oruchwyliaeth gan hyfforddwr a bennir ar eu cyfer. Ar adeg ein harolygiad, roedd deintydd yn gweithio yn y practis fel rhan o'i hyfforddiant sylfaenol.

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut roedd Practis Deintyddol Tŷ Gwyn  yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn. Rydym wedi argymell bod perchennog y practis yn gwneud trefniadau i sicrhau y gall y practis ddangos ei fod yn asesu barn cleifion yn rheolaidd ac yn cymryd camau gweithredu mewn ymateb i'r adborth a ddarperir.

Er bod dogfennau ar gael i gadarnhau bod pelydrau-X yn cael eu defnyddio'n ddiogel, gwelsom fod angen gwelliant o ran hyfforddiant staff ac archwiliadau cysylltiedig mewn perthynas â hyn.

Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng cleifion (llewygu), ac roedd y staff yn dangos eu bod yn gwybod sut i weithredu mewn ymateb i hyn. Fodd bynnag, mae angen gwneud trefniadau i sicrhau bod yr offer a'r cyffuriau'n cael eu gwirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol a thrin, storio a gwaredu gwastraff. Gwnaethom nodi bod angen gwella hyfforddiant staff rhywfaint.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar ac offer deintyddol perthnasol. Gwelsom y byddai un o'r ystafelloedd triniaeth yn elwa ar gael ei moderneiddio.

Ar y cyfan, roedd cofnodion deintyddol y cleifion wedi cael eu cadw'n dda, ond gwnaethom nodi rhai meysydd oedd angen eu gwella o ran cydsyniad parhaus cleifion ac o ran cael y deintydd i gydlofnodi hanesion meddygol.

Perchennog y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol.  Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch y cleifion.

Gwnaethom nodi bod angen diwygio'r weithdrefn pryderon (cwynion) ysgrifenedig er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ar gyfer ymateb i gwynion am ofal y GIG yng Nghymru a'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Gwelsom fod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Gwnaeth cleifion a oedd wedi gwneud sylwadau yn ein holiaduron nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn. Rydym wedi argymell y dylai perchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau y gall y practis ddangos ei fod yn asesu barn cleifion yn rheolaidd ac yn gweithredu mewn ymateb i'r adborth a ddarperir.**

Cyn ein hymweliad arolygu, gwnaethom ofyn i berchennog y practis ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion. Trwy gyfrwng yr holiaduron hyn, gwnaethom wahodd cleifion i roi sylwadau ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 17 o holiaduron wedi eu cwblhau cyn ein hymweliad arolygu.

Dywedodd yr holl gleifion oedd wedi gwneud sylwadau wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn gan y practis deintyddol. Yn ogystal, dywedodd yr holl gleifion oedd wedi gwneud sylwadau fod tîm y practis yn groesawgar.

Dywedodd mwyafrif y cleifion (16) wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Awgrymodd un claf y byddai wedi hoffi cael mwy o wybodaeth am fanteision/anfanteision triniaeth benodol. Fodd bynnag, nododd yr un claf fod yr esboniad a roddwyd am y driniaeth yn *'dda iawn'*.

Pan ofynnwyd iddynt wneud sylwadau ychwanegol, dywedodd y cleifion:

> *'Rydw i bob amser yn hapus iawn gyda'r driniaeth a'r cyngor.'*
>
> *'Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar a chroesawgar.'*
>
> *'Mae fy neintydd yn dda iawn … wastad yn mynd yr ail filltir rhywsut.'*

Dywedodd mwyafrif y cleifion a wnaeth sylwadau yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau deintyddol (brys) y tu allan i oriau. Serch hynny, dywedodd rhai ohonynt (tri o gleifion) wrthym nad oeddent yn gwybod. Roedd rhif ffôn cyswllt y practis yn cael ei arddangos yn y ffenestr ger y brif fynedfa, ac roedd cleifion yn cael cyfarwyddyd i gysylltu â'r rhif hwn pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt. Er i ni ganfod bod y rhif cyswllt brys uniongyrchol yn cael ei arddangos yn yr ystafell aros a'i fod ar gael i gleifion yn nhaflen wybodaeth ac ar beiriant ateb y practis, dylai perchennog y practis

hefyd arddangos y rhif uniongyrchol perthnasol fel y gall cleifion sy'n ymweld â'r practis pan fydd ar gau ei weld yn hawdd.

Gwnaeth y staff ddisgrifio proses a oedd ar waith ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Darparodd perchennog y practis dempled o holiadur a oedd wedi cael ei ddefnyddio i gael barn y cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir gan dîm y practis. Dywedwyd wrthym fod arolwg o foddhad cleifion wedi cael ei gynnal yn 2014 fel rhan o'r broses hyfforddiant deintyddol sylfaenol. Er i ni gael ein hysbysu bod adborth cleifion wedi cael ei ystyried a'i drafod fel rhan o'r broses hon, nid oedd unrhyw gofnod o'r sylwadau a wnaed na sut roedd y tîm practis wedi gweithredu mewn ymateb i'r adborth a ddarparwyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau y gall y practis ddangos ei fod yn asesu barn cleifion yn rheolaidd a'i fod yn gweithredu mewn ymateb i'r adborth a ddarperir*.**

Roedd y practis yn darparu gofal deintyddol y GIG a gofal deintyddol preifat. Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth yn cael eu harddangos ynghyd â gwybodaeth ar gymhwysedd cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd prisiau ar gyfer cynllun yswiriant gofal deintyddol preifat y practis ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gallu cael gwybodaeth am faint y gallai fod angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol. Er bod gwybodaeth am y cynllun yswiriant deintyddol ar gael, nid oedd costau cysylltiedig â thriniaeth breifat yn cael eu harddangos. Yn hytrach, byddai cleifion yn cael eu hysbysu o'r costau hyn gan eu deintydd. Felly, rydym wedi argymell bod perchennog y practis yn gwneud trefniadau i arddangos rhestr brisiau sy'n nodi'r costau sy'n gysylltiedig â gofal deintyddol preifat yn unol â'r safonau a osodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas i arddangos rhestr brisiau sy'n nodi'r costau sy'n gysylltiedig â gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat a ddarperir yn y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Roedd deunydd hybu iechyd ar gael yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth a chyngor ar gael i gleifion i'w helpu i ofalu am hylendid ac iechyd y geg eu hunain.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Er bod dogfennau ar gael i gadarnhau bod pelydrau-X yn cael eu defnyddio'n ddiogel, gwelsom fod angen gwella hyfforddiant staff ac archwiliadau cysylltiedig mewn perthynas â hyn.**

**Roedd offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng cleifion (llewygu), a dangosodd y staff eu bod yn gwybod sut i weithredu mewn ymateb i hyn.Fodd bynnag, mae angen gwneud trefniadau i sicrhau bod yr offer a'r cyffuriau'n cael eu gwirio'n rheolaidd.**

**Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol a thrin, storio a gwaredu gwastraff. Gwnaethom nodi bod angen rhywfaint o wella mewn perthynas â hyfforddiant staff.**

**Roedd yr holl gyfleusterau clinigol yn lân ac yn daclus ac yn cynnwys y cyfarpar a'r offer deintyddol perthnasol. Gwelsom y byddai un o'r ystafelloedd triniaeth yn elwa ar gael ei moderneiddio.**

**Ar y cyfan, roedd cofnodion deintyddol y cleifion wedi cael eu cadw'n dda, ond gwnaethom nodi rhai meysydd oedd angen eu gwella o ran cydsyniad parhaus cleifion ac o ran cael y deintydd i gydlofnodi hanesion meddygol.**

**<u>Cyfarpar/dogfennau radiograffeg</u>**

Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl ddogfennau a gwybodaeth am ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel yn y practis. Roedd tystysgrifau gwiriadau diogelwch ar gael ar gyfer dau o'r tri pheiriant. Fodd bynnag, er bod dogfennau'n dangos bod y peiriant arall wedi cael ei wirio, nid oedd y dystysgrif wirio ffurfiol ar gael i'w harchwilio. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis am hyn a chawsom ein sicrhau bod y peiriant wedi cael ei archwilio ar 21 Ebrill 2015 ond nad oedd y practis wedi derbyn y dystysgrif.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod y dystysgrif gwiriad diogelwch ar gyfer y peiriant pelydr-X a nodwyd ar gael i AGIC ei harchwilio.***

Gwelsom hefyd nad oedd cofnodion ar gael – ac eithrio ar gyfer un aelod o staff – i gadarnhau bod staff perthnasol wedi mynychu hyfforddiant radiograffeg ac amddiffyn rhag ymbelydredd (RhYÏ(DM)) o fewn y pum mlynedd ddiwethaf. Ar gyfer yr aelod o staff oedd yn meddu ar dystysgrif hyfforddiant, roedd nifer yr

oriau o hyfforddiant yn llai na'r pum awr ofynnol a argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwnaeth perchennog y practis ymholiadau gyda darparwr hyfforddiant yn ystod ein hymweliad arolygu, gyda'r bwriad o drefnu hyfforddiant.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod hyfforddiant diogelwch ymbelydredd (RhYÏ(DM)) yn gyfredol ar gyfer staff perthnasol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Dylid rhoi system ar waith i ddangos hyn.***

Roedd pelydrau-X digidol yn cael eu defnyddio, ac er bod archwiliad sicrhau ansawdd wedi cael ei gynnal yn 2008, gwnaethom awgrymu y dylid cynnal y rhain yn amlach. Mae hyn i sicrhau bod y defnydd o belydrau-X yn cael ei fonitro'n rheolaidd i ganfod unrhyw broblemau cylchol er mwyn mynd i'r afael â nhw fel y bo'n briodol.

**<u>Dadebru a chymorth cyntaf/cyffuriau brys</u>**

Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys ar gael pe bai argyfwng cleifion (llewygu) yn y practis. Gwelsom fod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys gorchuddion oedd wedi mynd heibio i'w dyddiad dod i ben, a gwnaethom hysbysu perchennog y practis am hyn er mwyn iddo roi rhai newydd yn eu lle. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn, ac rydym wedi argymell bod system yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod cyffuriau ac offer brys yn y practis yn cael eu gwirio'n rheolaidd yn unol â chanllawiau a osodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.[4] Mae hyn i sicrhau bod cyffuriau sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben yn cael eu canfod a bod cyffuriau newydd yn cael eu darparu yn eu lle yn brydlon a bod yr offer yn addas i'w ddefnyddio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i osod a chynnal system ar gyfer gwirio cyffuriau ac offer brys yn y practis yn rheolaidd, yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Gyngor Dadebru'r DU. Dylid gwneud***

---

[4]Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru rhagorol, gwyddonol sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithrediad.

***hyn i sicrhau bod cyffuriau sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben yn cael eu canfod a bod cyffuriau newydd yn cael eu darparu yn eu lle a bod yr offer yn addas i'w ddefnyddio.***

Roedd cyfres o siartiau llif ar gael er mwyn llywio staff trwy'r camau priodol pe bai argyfwng claf yn cael ei nodi. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymwybodol o'r camau i'w cymryd pe bai argyfwng claf.

Gwelsom nad oedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwnaethom hysbysu perchennog y practis am hyn, a chytunodd i fynd i'r afael â'r mater.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd. Gwnaeth y cofnodion hyfforddiant a welsom gadarnhau hyn. Cadarnhaodd perchennog y practis nad oedd unigolyn cymorth cyntaf penodedig gan fod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i berfformio adfywiad cardio-pwlmonaidd. Gwnaethom drafod yr angen i'r practis benodi unigolyn i fod yn gyfrifol am gymorth cyntaf, a dylai perchennog y practis geisio esboniad a chyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar y gofynion mewn perthynas â hyn.

## Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Roedd trefniadau ar waith i storio gwastraff oedd yn aros i gael ei gasglu yn ddiogel.

Roedd gan y practis wahanydd amalgam[5] er mwyn cael gwared ar ronynnau o amalgam (llenwadau) yn ddiogel o ddŵr gwastraff. Yn ogystal, roedd cynwysyddion addas ar gael i gadw dannedd a dynnwyd, gan gynnwys rhai gyda llenwadau amalgam, tra oeddent yn aros i gael eu gwaredu'n ddiogel.

## Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)

Gwelsom fod proses addas ar waith ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân, yn unol ag argymhellion  Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Adolygiad 1)

[5] Dyfais sy'n tynnu gronynnau o amalgam mercwri (sydd mewn rhai llenwadau deintyddol) o ddŵr gwastraff cyn iddo fynd i'r system garthffosiaeth.

(WHTM 1-05).[6]. Dylai hyn, ynghyd â'r defnydd o brosesau rheoli addas, leihau’r risg o groes-heintio rhwng offer deintyddol.

Roedd cofnodion yn dangos bod gwiriadau rheolaidd wedi cael eu cynnal ar yr offer yn yr ystafell. Serch hynny, gwnaethom awgrymu y dylid cadw'r stripiau a ddefnyddir i brofi'r bath uwchsonig[7] er mwyn dangos ei fod yn gweithio'n effeithiol. Roedd y cyfarpar oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio’r offer deintyddol mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch gyfredol ar gael ar gyfer y peiriant awtoclaf.[8]

Gwelsom fod yr offer deintyddol mewn pecynnau priodol er mwyn lleihau’r risg o heintio wrth gael eu storio. Roedd system ar waith i nodi dyddiad dod i ben yr offer deintyddol.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio dull cydnabyddedig sy'n cyd-fynd yn benodol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Mae hyn yn caniatáu i dimau deintyddol hunanasesu eu practis mewn perthynas â'r polisi a'r gweithdrefnau sydd ynddo. Er hynny, nid oeddem yn gallu penderfynu o'r cofnodion oedd ar gael beth oedd canlyniad yr archwiliad neu a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad iddo. Felly, dylai perchennog y practis wneud trefniadau i ddangos hyn fel rhan o'r broses gyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Yn ôl y cofnodion hyfforddiant oedd ar gael, nid oedd pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant dadheintio. Felly, dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod yr holl aelodau o staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant o'r fath a rhoi system ar waith i ddangos hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

---

[6]Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Adolygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[7]Mae bath uwchsonig yn glanhau eitemau gan ddefnyddio uwchsain (fel arfer 20–400 cilohertz) a hydoddydd glanhau priodol.

[8]Siambr bwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod holl staff perthnasol y practis yn derbyn hyfforddiant dadheintio priodol a rhoi system ar waith i ddangos hyn.***

## Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y practis. Gwelsom eu bod yn lân ac yn daclus. Roedd y cyfarpar a'r offer deintyddol yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Er bod gan y practis beiriant cymysgydd llenwadau, efallai yr hoffai perchennog y practis gynyddu'r ddarpariaeth hon er mwyn i staff allu defnyddio mwy nag un peiriant ar y tro. Gall hyn atal oedi diangen o ran darparu triniaeth.

Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch ar gael ar gyfer y cywasgydd[9] a ddefnyddir yn y practis. Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo ac offer diogelu untro er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwelsom y byddai un o’r ystafelloedd triniaeth yn elwa ar gael ei moderneiddio trwy gael cypyrddau, llawr ac arwynebau gwaith newydd er mwyn gwneud glanhau yn haws. Roedd perchennog y practis eisoes wedi nodi hyn fel maes i'w ddatblygu yn y dyfodol.

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o bump o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hwn yn cynnwys cofnodion oedd wedi cael eu cwblhau gan bob deintydd sy'n gweithio yn y practis.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn dangos bod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd a oedd yn sicrhau diogelwch a lles y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd roedd angen eu gwella. Nid oedd cydsyniad cleifion i driniaeth a sgoriau archwiliadau periodontol sylfaenol[10] wedi cael eu cofnodi bob amser. Hefyd, gwelsom y byddai rhai cynlluniau triniaeth yn elwa ar fod yn fwy manwl.

Hefyd, nid oedd hanesion meddygol cleifion wedi cael eu cydlofnodi gan y deintydd bob amser, er eu bod wedi cael eu cwblhau. Byddai cydlofnod yn

---

[9]Mae cywasgydd yn codi pwysedd aer, at ddiben triniaethau deintyddol.

[10]Dull sgrinio yw archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE) sy'n cael ei ddefnyddio gan ddeintyddion i ganfod clefyd y deintgig.

dangos bod hanes meddygol claf wedi cael ei ystyried gan y deintydd wrth gynllunio triniaeth gychwynnol. Roedd tystiolaeth i gadarnhau bod y practis wedi holi cleifion a oedd unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol mewn ymweliadau dilynol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau:***

- ***Bod cofnodion deintyddol yn adlewyrchu cydsyniad parhaus gan gleifion i driniaeth a bod archwiliadau periodontol sylfaenol wedi cael eu cyflawni***

- ***Bod hanesion meddygol cychwynnol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Perchennog y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.**

**Gwnaethom nodi bod angen adolygu'r weithdrefn bryderon (cwynion) i gydymffurfio'n llawn â threfniadau cyfredol ar gyfer ymateb i gwynion am ofal y GIG yng Nghymru a'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.**

Y prif ddeintydd (perchennog y practis) oedd yn gyfrifol am reoli'r practis yn gyffredinol.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff clinigol oedd yn gweithio yn y practis wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Roedd y deintyddion oedd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat wedi'u cofrestru ag AGIC yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru yn cael eu harddangos yn amlwg yn unol â'r rheoliadau a enwyd uchod.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod y staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch y cleifion mewn perthynas â hyn.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda’r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau'n ymwneud â diogelu oedolion sy'n agored i niwed a phlant a gweithdrefnau rheoli heintiau. Gwnaethom awgrymu y dylai'r polisïau diogelu hefyd gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol. Byddai hyn yn golygu y byddai'n haws i staff fynd at y manylion hyn pe bai angen cyngor arnynt ar faterion diogelu neu pe bai angen iddynt wneud atgyfeiriad. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ond nid ar amddiffyn oedolion. Felly, dylai perchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant yn y maes hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff perthnasol y practis yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion.***

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu mynd at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael eu trin gan staff sydd â sgiliau addas a hyfforddiant cyfredol. Er

bod rhai tystysgrifau hyfforddiant ar gael, nid oedd y rhain yn adlewyrchu amrywiaeth y pynciau a ddisgrifiwyd gan y staff. Felly, dylai perchennog y practis roi system ffurfiol ar waith i ddangos pa gyrsiau hyfforddiant mae staff y practis wedi eu mynychu.

Dywedodd staff wrthym hefyd fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod pynciau perthnasol i'w gwaith yn cael eu trafod. Gwelsom gofnodion oedd yn cadarnhau'r broses hon.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith er mwyn i'r cleifion leisio pryderon (cwynion). Roedd angen adolygu'r weithdrefn i gydymffurfio'n llawn â *Gweithio i Wella*, y trefniadau ar gyfer trin a thrafod pryderon (cwynion) ynghylch gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru, a hefyd gofynion rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Roedd y weithdrefn hefyd yn cyfeirio'n anghywir at y ffaith bod cleifion y GIG yn gallu gofyn am adolygiad gan yr Ysgrifenyddiaeth Adolygu Annibynnol. Mae hyn yn hen ac nid yw'n rhan o'r trefniadau Gweithio i Wella presennol. Yn ogystal, nid oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel sy'n ofynnol dan y trefniadau uchod. Er bod manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned lleol a'r bwrdd iechyd lleol wedi eu cynnwys, roedd y rhain hefyd yn hen.

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau deintyddiaeth breifat o ran cwynion am ofal deintyddol preifat, mae angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn y weithdrefn gwyno. Yn ogystal, roedd angen i'r amserlen ar gyfer ymateb i gwynion adlewyrchu'r hyn a nodir yn y rheoliadau. Dylid hefyd cynnwys manylion cyswllt y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol fel sy'n cael ei argymell yn y safonau a osodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwnaethom hysbysu perchennog y practis am ein canfyddiadau, ac fe gytunodd i ddiweddaru gweithdrefn y practis.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i adolygu gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis er mwyn iddi adlewyrchu'n llawn y trefniadau cyfredol a nodir yn 'Gweithio i Wella' a manylion cyswllt cyfredol asiantaethau perthnasol.***

***Yn ogystal, ar gyfer cwynion ynghylch gwasanaethau deintyddol preifat, mae angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac mae angen i'r amserlen ar gyfer ymateb i gwynion adlewyrchu'r hyn a nodir yn y rheoliadau.***

***Dylid hefyd cynnwys manylion cyswllt y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.***

Roedd gwybodaeth i'r cleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y practis ac mewn taflen wybodaeth. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r wybodaeth a roddir i gleifion fel y nodwyd uchod. O'r cleifion oedd wedi cwblhau holiaduron, dywedodd 11 ohonynt wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Felly, efallai yr hoffai perchennog y practis ymchwilio sut y gellir gwella ymwybyddiaeth cleifion o'r weithdrefn hon.

Roedd perchennog y practis wedi cyflwyno defnydd o lyfr cwynion i geisio cadw manylion am bryderon (cwynion) a dderbyniwyd. Gwnaed hyn gyda'r bwriad o ganfod themâu oedd yn dod i'r amlwg mewn cwynion er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth fel y bo'n briodol.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban. Byddai hwn yn elwa ar gynnwys manylion cyswllt asiantaethau cymorth allanol y gallai staff gysylltu â nhw am gyngor pe bai angen. Er bod polisi ar waith, dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus i leisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â gwaith yn uniongyrchol â pherchennog y practis cyn, ac felly o bosibl yn hytrach nag, uwchgyfeirio eu pryderon trwy gyfrwng y broses chwythu'r chwiban.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod lleoliad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

Mae Practis Deintyddol Tŷ Gwyn yn nhref Treforys. Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu allan yn ôl pob golwg, ac roedd arwyddion clir yn arwain at y practis. Roedd gan y practis rywfaint o lefydd parcio penodedig yn union y tu ôl i'r adeilad, ac roedd parcio ar gael ar y brif ffordd hefyd, yn union y tu allan i'r practis, er y dywedwyd wrthym fod cyfyngiadau amser ar y llefydd hyn. Roedd maes parcio cyhoeddus di-dâl y dref gerllaw hefyd.

Roedd gan y practis ramp parhaus at y brif dderbynfa er mwyn i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gyfarpar cymorth symudedd fynd i mewn i'r adeilad. Roedd y cyfleusterau yn y practis wedi eu gosod dros dri llawr. Roedd y rhain yn cynnwys derbynfa, ystafell aros ac ystafell driniaeth ar y llawr daear a dwy ystafell driniaeth arall ar y llawr cyntaf. Roedd cyfleusterau i staff ar yr ail lawr. Roedd arwyddion yn cyfeirio cleifion at yr ystafell aros, yr ystafelloedd triniaeth a'r toiled. Roedd y mannau y gwnaethom eu harchwilio yn lân, yn daclus, yn derbyn digon o olau ac wedi'u hawyru'n dda.

Roedd cyfleusterau toiled i'r cleifion a'r staff ar y llawr daear ac ar yr ail lawr yn eu tro. Nid oedd mynediad i doiled y cleifion yn addas i gleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd y toiledau'n lân ac yn hylan, ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i leihau croes-heintio.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu gwybodaeth bersonol cleifion sy'n cael ei chadw yn y practis. Roedd cypyrddau ffeilio y gellid eu cloi yn cael eu defnyddio i gadw cofnodion yn ddiogel, ac roedd angen cyfrinair ar staff er mwyn gallu mynd at gofnodion electronig. Roedd trefniadau addas ar waith i greu copi wrth gefn o ddata electronig pe bai systemau cyfrifiadur lleol yn methu neu'n cael eu difrodi.

Roedd arwyddion clir at yr allanfeydd tân, ac roedd y cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân yn cael eu harddangos. Roedd diffoddwyr tân ar gael, ac roedd y labeli cynnal a chadw yn dangos eu bod wedi cael eu gwirio o fewn y 12 mis diwethaf. Golygai hyn fod gan staff a chleifion wybodaeth i'w galluogi i adael yr adeilad yn ddiogel pe bai tân, ac roedd offer addas ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai angen.

Roedd tystysgrif diogelwch nwy ar gael, ond roedd wedi cael ei chyhoeddi dros 12 mis yn ôl. Gwnaethom drafod hyn â pherchennog y practis ac argymell y dylai wneud trefniadau addas i wirio a oedd angen gwiriad diogelwch pellach ar

y dyfeisiadau oedd yn cael eu tanio gan nwy. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, gwelwyd bod angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran profiad y claf, cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal, a rheolaeth ac arweinyddiaeth. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Tŷ Gwyn yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Tŷ Gwyn

## Dyddiad yr Arolygiad: 18 Mai 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau y gall y practis ddangos ei fod yn asesu barn y cleifion yn rheolaidd a'i fod yn cymryd camau gweithredu mewn ymateb i'r adborth a ddarperir.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.3) | | | |
| 7 | Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas i arddangos rhestr brisiau sy'n nodi'r costau sy'n gysylltiedig â gofal a thriniaeth ddeintyddol breifat a ddarperir yn y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | (Safonau Iechyd a Gofal, Safon 4.2; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2.4.1) | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 8 | Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod tystysgrif gwiriad diogelwch y peiriant pelydr-X a nodwyd ar gael i'w harchwilio gan AGIC.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9) | | | |
| 9 | Mae angen i berchennog y practis wneud trefniadau i sicrhau bod hyfforddiant diogelwch ymbelydredd (RhYÏ(DM)) yn gyfredol ar gyfer staff perthnasol, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Dylid rhoi system ar waith i ddangos hyn.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9) | | | |
| 9/10 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i osod a chynnal system i wirio'r cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys yn y practis yn rheolaidd, yn unol â'r canllawiau a nodir gan Gyngor Dadebru'r | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | DU. Dylid gwneud hyn gyda'r bwriad o sicrhau bod cyffuriau sy'n agosáu at eu dyddiad dod i ben yn cael eu canfod a bod cyffuriau newydd yn cael eu darparu yn eu lle ac i wirio bod offer yn addas i'w defnyddio.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9; Cyngor Dadebru'r DU, 'Primary Care: Minimum equipment and drug lists for cardiopulmonary resuscitation', Adran 3) | | | |
| 11/12 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant dadheintio priodol, a dylid gosod system ar waith i ddangos hyn.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.4) | | | |
| 13 | Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau:<br><br>• Bod cofnodion deintyddol yn adlewyrchu cydsyniad parhaus cleifion i dderbyn triniaeth a bod archwiliadau periodontol sylfaenol wedi cael eu cyflawni<br><br>• Bod hanesion meddygol cychwynnol | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1) | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 14 | Dylai perchennog y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod staff perthnasol y practis yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.7) | | | |
| 15/16 | Rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i adolygu gweithdrefn bryderon (cwynion) y practis er mwyn iddi adlewyrchu'n llawn y trefniadau cyfredol a nodir yn 'Gweithio i Wella' a manylion cyswllt cyfredol asiantaethau perthnasol.<br><br>Yn ogystal, ar gyfer cwynion am wasanaethau deintyddol preifat, mae angen cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac mae angen i'r amserlen ar gyfer ymateb i gwynion adlewyrchu'r hyn a nodir yn y rheoliadau.<br><br>Dylid hefyd cynnwys manylion cyswllt y | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaeth Cwynion Deintyddol.<br><br>(Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 15(4)(a)) | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | - | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** ..........................................................................................

**Teitl:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** ..........................................................................................